SESIWN 3: ARCHWILIO HAWLIAU PLANT YN SYRIA AC UGANDA

Ystod oedran: 8–11 oed Amser: 1 awr

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn edrych ar ddwy astudiaeth achos, un am Reema, merch fach o Syria sy'n byw fel ffoadur yn Lebanon, ac un arall am Charles, bachgen sy'n byw yn Kampala, prifddinas Uganda. Bydd y dysgwyr yn trafod pa hawliau sydd gan y ddau blentyn hyn neu sydd ddim ganddyn nhw, ac yna'n cymryd rhan mewn chwarae rôl i archwilio'r hawliau hyn. Bydd y dysgwyr yn gorffen drwy ddefnyddio'r cyd-destun hwn i ddatblygu eu sgiliau defnyddio cysyllteiriau i gysylltu eu syniadau.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
Datblygu sgiliau defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau.
Datblygu dealltwriaeth o'r hawliau sydd gan rai plant mewn rhannau eraill o'r byd, a'r hawliau nad oes ganddynt, a rhai o'r rhesymau dros hyn.</td><td>Canlyniadau dysgu
Bydd y dysgwyr yn darllen un ai stori Reema neu stori Charles ac yn trafod pa rai o'r 12 hawl a ddetholwyd yn Sesiwn 2 sydd ganddynt neu sydd ddim ganddynt.
Bydd y dysgwyr yn cael gwell dealltwriaeth o hawliau Reema a Charles drwy gymryd rhan mewn chwarae rôl.
Bydd y dysgwyr yn dewis cysyllteiriau addas i gysylltu eu syniadau.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
Sut mae Reema a Charles yn diwallu eu hangen am ddŵr glân, cysgod ac addysg? Sut mae'r rhain yn cymharu â'r ffordd rydyn ni'n diwallu ein hangen a'n heisiau?
Pa rai o hawliau Reema a Charles sy'n cael eu diwallu a pha rai sydd heb fod yn cael eu diwallu? Sut rydyn ni'n meddwl maen nhw'n teimlo am y rhain?
Allwn ni ddefnyddio cysylltair i gysylltu ein syniadau?</td><td>Adnoddau
Sleidiau Hawliau Plant, sleidiau 7–11
Stori Reema a Stori Charles
Croeso i Syria! Croeso i Uganda! (dewisol)
Erthyglau a ddetholwyd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (wedi'u torri'n ddarnau unigol o bapur i'r dysgwyr, fesul pâr, eu trefnu)
Tabl trefnu
Cerdyn bingo cysyllteiriau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiadau â'r cwricwlwm</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymru

Cymraeg: Llafaredd
Sgiliau: Canfod pwyntiau allweddol a dilyn y syniadau hyn drwy ddefnyddio cwestiynau a sylwadau, datblygu ymateb i eraill er mwyn dysgu drwy siarad.
Darllen
Sgiliau: ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/weld, ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr eirfa, arddull, cyflwyniad a threfniad delwedd ac iaith, a gallu dewis tystiolaeth i gefnogi eu barn.
Ystod: darllen/gwylio darnau a thestunau cyflawn ar bwnc heriol sy'n ehangu persbectif ac yn estyn y meddwl.
Ysgrifennu
Sgiliau: defnyddio amrywiol strwythurau ar gyfer llunio brawddegau, eu cysylltu'n drefnus a datblygu'r gallu i ddefnyddio paragraffau'n effeithiol.</td></tr>
</table>

Amlinelliad o'r gweithgaredd

Cyflwyniad *(15 mun)*
Stori Reema, stori Charles

- Dangoswch sleidiau 7–10 a/neu dangoswch *Croeso i Syria* a *Croeso i Uganda!* i'r dysgwyr. Eglurwch y byddan nhw'n dod i wybod am ddau blentyn yn y gwledydd hyn sydd heb rai o'u hawliau. Bydd angen gwneud yn glir hefyd fod yna blant eraill yn y gwledydd hyn sydd â'r un hawliau â'r rhan fwyaf o blant yn y Deyrnas Unedig.
- Rhannwch y dosbarth yn ddau a gofynnwch i un hanner ddarllen *Stori Reema* a'r llall i ddarllen Stori Charles.
- Dewiswch ddysgwyr o'r ddau grŵp i rannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am Reema a Charles gyda hanner arall y dosbarth.
- Arweiniwch drafodaeth ddosbarth ynghylch y cwestiynau a ganlyn:
    - Sut mae Reema a Charles yn delio â'u hangen am ddŵr glân, bwyd, cysgod ac addysg?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r ffordd rydyn ni'n delio â'r hyn rydyn ni ei angen a'i eisiau?

Gweithgaredd 3.1 *(20 mun)*
Archwilio Hawliau

- Atgoffwch y dysgwyr am y 12 erthygl o *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* o Sesiwn 2. Gofynnwch iddyn nhw ystyried pa rai o'r hawliau hyn sydd gan Reema a Charles, a pha rai sydd ddim ganddyn nhw.

- Rhowch un copi o *Rhai erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, wedi'i dorri'n ddarnau unigol o bapur i'r dysgwyr, mewn grwpiau o bedwar, a gofyn iddyn nhw eu trefnu dan y tri phennawd hyn:

    - Ydyn, mae'r hawliau hyn gan Reema/Charles.
    - Nac ydyn, dydy'r hawliau hyn ddim gan Reema/Charles.
    - Ddim yn siŵr.

- Defnyddiwch y *Tabl trefnu* a'r *Nodiadau cefndir i athrawon* i helpu'r dysgwyr.

Gwahaniaethu

Haws: Rhowch nifer llai o erthyglau i'r dysgwyr eu trafod.

Anoddach: Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau ar yr astudiaeth achos yn dangos tystiolaeth y mannau hynny lle mae'r hawliau wedi'u cyflawni, yn eu barn nhw, neu wedi cael eu torri.

Gweithgaredd 3.2 *(20 mun)*
Defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau

- Atgoffwch y dysgwyr o'r iaith perswadio a ddefnyddiwyd ganddyn nhw yn Sesiynau 1 a 2 (cyfeiriwch at y 'banc geiriau'). Eglurwch mai techneg arall wrth ddefnyddio iaith i berswadio yw defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau.

- Rhowch *Gerdyn bingo cysyllteiriau* i bob disgybl a thrafodwch y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio cysyllteiriau.

- Gofynnwch i'r dysgwyr, mewn parau, chwarae rôl Reema neu Charles a rhywun sy'n eu cyf-weld. Eglurwch y bydd angen iddyn nhw ddefnyddio'r tabl a luniwyd ganddyn nhw yng Ngweithgaredd 1.1 i chwarae rôl yn trafod yr hawliau sydd gan Reema a Charles, neu sydd ddim ganddyn nhw, ac archwilio sut y gallai Reema a Charles fod yn teimlo am hyn.

- Rhowch her i'r dysgwyr geisio cynnwys cysyllteiriau o'u Cerdyn bingo cysyllteiriau wrth chwarae rôl. Dylen nhw groesi cysylltair allan ar ôl ei ddefnyddio.

  Er enghraifft:

  - *Plentyn yn y Deyrnas Unedig:* Rydw i'n credu bod gen ti hawl i fwyd a lle i fyw, **ond** dydy'r drol lle rwyt ti'n cysgu ddim yn swnio'n gyffyrddus iawn.
  - *Charles:* Rydw i'n meddwl ei bod yn gall bod yn oer iawn yn y drol, **felly** er mwyn cadw'n gynnes rhaid i mi ofalu am Musa a rhaid i Musa ofalu amdana i.
  - *Reema:* Mae fy ysgrifennu'n bwysicach i mi nawr **oherwydd** dydw i'n gallu mynd i'r ysgol na chwarae gyda ffrindiau.

Gwahaniaethu

Haws: Canolbwyntiwch ar hawl Reema neu Charles i fwyd, dillad a lle i fyw. Mewn grwpiau bychain, gofynnwch i un plentyn chwarae rôl Reema neu Charles tra bydd y lleill yn gofyn cwestiynau sut maen nhw'n teimlo am eu hawl i fwyd, dillad a lle i fyw. Rhowch *Gerdyn bingo cysyllteiriau* i'r un sy'n chwarae rôl Reema neu Charles, a'i herio i ddefnyddio rhai o'r geiriau ar y cerdyn wrth ymateb.

Anoddach: Yn dilyn pob darn o ddeialog rhwng yr un sy'n chwarae rôl Reema neu Charles a'r plentyn o'r Deyrnas Unedig, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r hyn ddywedodd y ddau gymeriad a thanlinellu'r cysyllteiriau a ddefnyddion nhw.

Sesiwn llawn *(5 mun)*

- Dewiswch rai o'r dysgwyr i berfformio rhan o'u deialog i'r dosbarth. Gofynnwch i weddill y dosbarth roi arwydd pan fyddan nhw'n clywed cysylltair yn cael ei ddefnyddio.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu'r cysyllteiriau maen nhw wedi'u defnyddio i 'fanc geiriau' y dosbarth i'w defnyddio'n ddiweddarach.

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n meddwl bod peidio cael eu holl hawliau yn effeithio ar fywyd Reema a Charles – nawr ac yn y dyfodol (er enghraifft, y math o waith a chyflog y gallen nhw eu cael pan fyddan nhw wedi tyfu).
- Edrychwch ar enghreifftiau eraill o blant Syria sy'n ffoaduriaid yn methu cael eu hawliau dynol, gan ddefnyddio **Syria: A Children's Crisis?**

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.

Nodiadau cefndir i athrawon

Reema

Mae Reema yn ferch go iawn sydd wedi'i heffeithio gan y gwrthdaro yn Syria. Bu'n rhaid iddi hi a'i theulu ffoi rhag yr ymladd yn Syria a nawr maen nhw'n byw fel ffoaduriaid yng ngogledd Lebanon. Am wybodaeth bellach, gweler *Gwybodaeth gefndir i athrawon*. Rydym yn argymell eich bod yn dangos *Croeso i Syria!* i'r dysgwyr cyn dechrau'r sesiwn gan nodi bod Reema wedi gwneud y cyfweliad yn 2013.

Ydyn, mae'r hawliau hyn gan Reema	**Nac ydyn, dydy'r hawliau hyn ddim gan Reema**	**Ddim yn siŵr** *(gan nad ydy'r astudiaeth achos yn nodi hyn)*
Erthygl 6: Mae gen ti hawl i fyw. Erthygl 27: Mae gen ti hawl i fwyd, dillad, a lle i fyw. • *Mae gan Reema rywfaint o fwyd a dillad, ond ychydig iawn o gyfleusterau ymolchi sydd ganddi lle mae hi'n byw.*	Erthygl 3: Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i ti. • *Mae llawer o blant yn Syria wedi cael eu heffeithio gan oedolion yn ymladd yn erbyn ei gilydd.* Erthygl 15: Mae gen ti hawl i wneud ffrindiau. • *Dydy Reema ddim yn gallu mynd i'r ysgol ac mae hi'n gorfod aros i mewn y rhan fwyaf o'r dydd, felly does dim cyfle iddi wneud ffrindiau.* Erthygl 24: Mae gen ti hawl i iechyd da. • *Dydy Reema ddim yn siŵr ydy'r cyflenwad dŵr (o'r pwmp gerllaw) yn lân ac mae'r toiled yn eithaf sylfaenol, heb unrhyw waith plymio. Felly mae mwy o berygl iddi gael afiechydon.* Erthygl 37: Ddylet ti ddim cael dy roi yn y carchar. • *Dydy Reema ddim yn gallu gadael ei chartref yn Lebanon y rhan fwyaf o'r dydd.* Erthygl 28: Mae gen ti hawl i addysg. • *Mae Reema yn colli ei hysgol yn Syria, ac fel llawer o ffoaduriaid o Syria, dydy hi ddim yn gallu mynd i'r ysgol yn Lebanon.*	Erthygl 14: Mae gen ti hawl i feddwl beth fynni di a dilyn pa grefydd bynnag rwyt ti eisiau. Erthygl 17: Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn blaen, o unrhyw le yn y byd. • *Er nad ydy'r astudiaeth achos yn nodi hynny, mae Reema yn byw heb drydan a'r rhyngrwyd, felly mae ei mynediad at y math hwn o wybodaeth yn gyfyngedig.* Erthygl 19: Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd. • *Dydy'r astudiaeth achos ddim yn nodi unrhyw beth penodol, ond gallai'r dysgwyr ymchwilio i weld sut mae statws Reema fel ffoadur yn golygu ei bod wedi'i brifo.* Erthygl 30: Mae gen ti hawl i fwynhau dy ddiwylliant dy hun, dilyn dy grefydd dy hun a defnyddio dy iaith dy hun. Erthygl 31: Mae gen ti hawl i chwarae. • *Efallai yr hoffech drafod ydy'r dosbarth yn meddwl bod Reema yn cael cyfle i chwarae.*

Charles

Mae Charles yn fachgen go iawn sydd wedi'i effeithio gan y gwrthdaro yn Uganda. Lladdwyd ei rieni gan Fyddin Gwrthsafiad yr Arglwydd yng ngogledd Uganda, ac fe redodd i ffwrdd i Kampala. Am wybodaeth bellach, gweler *Gwybodaeth gefndir i athrawon*. Cyn dechrau'r sesiwn, efallai yr hoffech ddangos *Croeso i Uganda!* i'r dysgwyr a dylid dweud bod Charles wedi gwneud y cyfweliad hwn rai blynyddoedd yn ôl. Er hynny, gellir adrodd hanesion tebyg heddiw gan lawer o blant eraill sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro ledled y byd.

Drwy eu trafodaeth grŵp, gallai'r dysgwyr drefnu'r hawliau yn rhai sydd gan Charles ac yn rhai sydd ddim ganddo, fel hyn:

Ydyn, mae'r hawliau hyn gan Charles	**Nac ydyn, dydy'r hawliau hyn ddim gan Charles**	**Ddim yn siŵr** *(gan nad ydy'r astudiaeth achos yn nodi hyn)*
Erthygl 6: Mae gen ti hawl i fyw. Erthygl 15: Mae gen ti hawl i wneud ffrindiau. Erthygl 27: Mae gen ti hawl i fwyd, dillad, a lle i fyw. • *Mae Charles yn gallu fforddio bwyd ac mae ganddo rai dillad, er mai ychydig ydyn nhw.*	Erthygl 3: Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i ti. • *Lladdwyd rhieni Charles gan filwyr. Mae'r heddlu yn rhedeg ar ei ôl allan o'r parc bysiau.* Erthygl 19: Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd. • *Mae Charles yn dweud bod yr heddlu'n ei guro weithiau.* Erthygl 24: Mae gen ti hawl i iechyd da. • *Mae Charles yn dweud y gall y wagen fod yn oer iawn yn y nos. Fydd hyn ddim yn beth da i'w iechyd.* Erthygl 37: Ddylet ti ddim cael dy roi yn y carchar. • *Mae Charles yn disgrifio Naguru fel carchar gan na fedran nhw gerdd na mynd allan.* Erthygl 28: Mae gen ti hawl i addysg. • *Er bod Charles wedi mynd i'r ysgol pan oedd yn iau, roedd yn rhaid iddo roi'r gorau i hynny. Efallai yr hoffech drafod gyda'r dosbarth ydyn nhw'n meddwl y dylai Charles fod yn yr ysgol o hyd a pham nad ydyw yno.*	Erthygl 14: Mae gen ti hawl i feddwl beth fynni di a dilyn pa grefydd bynnag rwyt ti eisiau. Erthygl 17: Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn blaen, o unrhyw le yn y byd. Erthygl 30: Mae gen ti hawl i fwynhau dy ddiwylliant dy hun, dilyn dy grefydd dy hun a defnyddio dy iaith dy hun. Erthygl 31: Mae gen ti hawl i chwarae. • *Efallai yr hoffech drafod gyda'r dosbarth ydyn nhw'n meddwl bod gan Charles amser i chwarae os yw'n gweithio yn y farchnad bob dydd.*

.

Croeso i Syria!

Ffeithiau am Syria

Cyfandir: Asia

Prifddinas: Damascus

Poblogaeth: 23 miliwn o bobl

leithoedd swyddogol: Arabeg

Arian: Punnoedd Syria (SYP). GBR£1 = 292 punt Syria

Man uchaf: Mynydd Hermon (2,814 metr uwchben lefel y môr)

Man isaf: Môr Galilea (200 metr dan lefel y môr)

Hinsawdd: Hafau hir, poeth a sych gan mwyaf, gaeafau gwlyb.

Prif grefydd: Mae 90% o'r boblogaeth yn Fwslimiaid

Disgwyliad oes ar gyfartaledd: 75 (*ond amcangyfrifir ei fod wedi gostwng i 62 ers 2011*)

Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y pen: US$2,226

Canran y boblogaeth sy'n byw mewn tlodi enbyd: 35%

Talgrynnwyd y data i'r rhif cyfan agosaf (data'r boblogaeth i'r miliwn agosaf.)

Ffynonellau'r data: Data Agored Banc y Byd: http://data.worldbank.org/ (2010-2013) a'r Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol.

Delwedd: Wikimedia Commons – Dinamik

Wyddech chi?

- Ar un adeg roedd Damascus yn ganolfan bwysig ar gyfer gwehyddu a masnachu tecstiliau ac mae'r gair damasg – techneg hynafol i wehyddu patrymau i ddeunydd – wedi'i enwi ar ôl y ddinas.
- Mae pob bochdew sy'n cael ei gadw fel anifail anwes heddiw yn ddisgynnydd i fochdew o Syria.
- Aleppo ydy un o'r dinasoedd hynaf yn y byd, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn byw yno yn 6000 CC.

Croeso i Uganda!

Ffeithiau am Uganda

Cyfandir: Affrica.

Prifddinas: Kampala.

Poblogaeth: 38 miliwn o bobl.

Ieithoedd swyddogol: Saesneg a Swahili ydy'r ieithoedd swyddogol, er bod yr iaith Luganda hefyd yn cael ei siarad yn helaeth. Mae tua 40 o ieithoedd gwahanol yn cael eu defnyddio yn Uganda ar hyn o bryd.

Arian: Swllt Uganda (UGX) (£1.00 ≈ 4694 swllt Uganda).

Man uchaf: Copa Margherita ar Fynydd Stanley (5,110 metr uwchben lefel y môr).

Man isaf: Llyn Albert (621 metr uwchben lefel y môr).

Hinsawdd: Hinsawdd trofannol â thymor gwlyb a thymor sych.

Prif grefydd: Mae 85% o'r boblogaeth yn Gristnogion, a 12% o'r boblogaeth yn dilyn Islam (Sunni gan mwyaf).

Disgwyliad oes ar gyfartaledd: 59.

Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y pen: US$ 418 (Cynnyrch Domestig Gros y pen yn y Deyrnas Unedig ydy US$ 40,225).

Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol: 20%.

Talgrynnwyd y data i'r rhif cyfan agosaf (data'r boblogaeth i'r miliwn agosaf.)

Ffynhonnell data: Data Agored Banc y Byd: http://data.worldbank.org/ (2010-2013)

Wyddech chi?

- Mae Uganda yn rhannu llyn mwyaf Affrica – Llyn Victoria – â dwy wlad gyfagos, Cenia and Tanzania.
- Mae Uganda yn eithaf bach o'i chymharu â gwledydd cyfagos, ond mae'n dal tua'r un maint â Phrydain.
- Mae hanner y gorilas mynydd yn y byd bellach yn byw yn Uganda.

Delwedd: Wikimedia Commons - Vardion

Stori Reema

Helô! Reema ydy fy enw i a dwi'n 12 oed. Dwi'n dod o Syria ond mae yna lawer o ymladd wedi bod yno. Felly, fe ddaeth fy rhieni â mrodyr, fy chwaer a minnau i fyw yng ngogledd Lebanon, lle mae'n fwy diogel. Dydy ein tŷ ni yn Lebanon ddim yn un da iawn gan mai dim ond wedi hanner ei adeiladu y mae. Toiled syml iawn sydd ganddon ni a does dim dŵr yn rhedeg yn y stafell ymolchi.

Mae Reema yn ysgrifennu barddoniaeth ac yn tynnu lluniau am ei phrofiadau fel ffoadur. Mae'r baneri mae'r plant yn eu dal yn dweud: 'Dwi eisiau fy nhŷ', 'Mae fy ysgol yn fy nghalon', 'Ble mae hawliau plentyndod' a 'Rhyddid. Urddas'. *Delwedd: Jane Beesley/Oxfam*

Does gen i ddim gweithgareddau i'w gwneud yn ystod y dydd. Yr unig beth ar ôl i'w wneud ydy ysgrifennu a thynnu lluniau pan fydd gen i lyfr nodiadau a phensiliau lliw. Pan oeddwn i'n byw yn Syria, roedd fy niwrnod yn llawn – mynd i'r ysgol a chael cwmni ffrindiau. Roeddwn i'n hoffi'r athrawon ac yn hoffi fy ffrindiau. Yma, does gen i ddim ysgol i fynd iddi, na ffrindiau chwaith. Dwi ddim yn nabod neb. Yr ysgol oedd fy mywyd. Roedd fel ail gartref i mi a dwi'n gobeithio y galla i fynd yn ôl iddi'n fuan.

Nawr dwi'n aros adre gyda fy mrodyr a'm chwaer. Rydyn ni'n aros i mewn y rhan fwyaf o'r dydd. Mae gen i dri brawd – deg oed, saith a dwy, ac mae gen i un chwaer. Mae hi'n naw oed ac rydyn ni'n ffrindiau da. Yn Syria roedd ganddon ni ieir a cholomennod, ond does ganddon ni ddim byd yma. Does ganddon ni ddim dŵr yn y tŷ fel oedd ganddon ni adre. Yma rydyn ni'n gorfod mynd i gasglu dŵr o'r ffynnon. Dydyn ni ddim yn gwybod ydy'r dŵr yn lân ai peidio.

Mae yna gân o'r enw "Bydd yfory'n well" a dwi'n hoffi ei chanu a dwi hefyd yn ysgrifennu cerddi, ac weithiau'n eu troi'n ganeuon. Roeddwn i'n arfer mwynhau ysgrifennu cynt ond ers inni ddod yma, ar ôl y drychineb yma, rhaid imi ysgrifennu; dwi angen ysgrifennu. Fedrwn i ddim peidio ysgrifennu taswn i eisiau. Mae'r tristwch yn fy ngyrru i ysgrifennu drwy'r adeg. Dyma un o fy ngherddi – dwi'n hapus fod dysgwyr mewn gwledydd eraill, ac yn y Deyrnas Unedig, yn ei darllen!

Syria, rydyn ni'n dy garu di â'n holl galon
Mae dy blant yn dyheu am dy weld
Ni wnawn ni byth dy anghofio
Fe ddown yn ôl ryw ddydd i sychu'r dagrau oddi ar dy ruddiau
Fe ddown yn ôl ryw ddydd i freichiau ein mam a chusanu ei thalcen, ei blodau, ei phridd
Syria annwyl, fe ddown yn ôl ryw ddydd
Syria, yr unig Syria, fy annwyl Syria,
Fe ddof yn ôl atat ryw ddydd.

Stori Charles

Helô! Charles Senyange ydy fy enw i a dwi'n 12 oed, bron yn 13. Dwi'n byw gyda tua ugain o fechgyn eraill mewn hen wagen yn iard y rheilffordd yn Kampala, prifddinas Uganda. Dwi'n gorfod byw yno gan fod milwyr wedi lladd fy rhieni dair blynedd yn ôl ac fe wnes i redeg i ffwrdd a chuddio yma. Rydyn ni'n cysgu ar bapurau newydd ar lawr y wagen, ond mae gen i focsys cardbord gwag a chynfas hefyd; dwi'n gorfod cuddio'r rheini mewn lle diogel yn ystod y dydd neu byddai rhywun yn eu dwyn. Mae gen i ffrind da ac rydyn ni'n helpu i edrych ar ôl ein gilydd. Ei enw ydy Musa Umani ac rydyn ni'n cadw'n gilydd yn gynnes yn y nos pan fydd hi'n oer iawn yn y wagen.

Ar y stryd yn Kampala (Simisa, Wikimedia Commons)

Yn y bore mi fydda i fel arfer yn mynd i farchnad y ddinas; mae'n cymryd tua 10 munud i mi gerdded yno. Dyma lle mae'r lorïau'n cyrraedd, yn llawn nwyddau i'w gwerthu. Dwi'n aml yn codi bananas sydd wedi disgyn ar lawr ac yn eu gwerthu. Weithiau mi fydda i'n gwerthu sebon, ar ôl ei brynu'n rhaid gan un o yrwyr y lorïau.

I frecwast, dwi'n yfed coffi du â siwgr, casafa â ffa – wedi'u prynu o stondin bwyd poeth yn y farchnad. I ginio, falle y caf fi bryd o *matoke* a reis. Os bydda i wedi ennill llawer o arian, falle y gwna i brynu cig. Mae gen i un pâr o siorts ac un crys – ac mi fydda i'n eu golchi nhw unwaith yr wythnos yn yr afon gan ddefnyddio darn bach o sebon. Dydy'r heddlu ddim yn hoffi gweld bechgyn fel fi yn gweithio yn y farchnad. Maen nhw'n meddwl y byddwn ni'n codi helynt. Weithiau maen nhw ein hel ni oddi yno, felly rydyn ni'n gorfod edrych allan amdanyn nhw. Os ydyn nhw'n ein dal ni, weithiau maen nhw'n mynd â ni i orsaf yr heddlu ac yn ein curo, neu'n ein hanfon i Naguru, cartref i fechgyn. Dwi ddim yn hoffi Naguru oherwydd ein bod yn cael ein trin fel carcharorion yno; dydyn ni ddim yn cael cerdded o gwmpas na mynd allan, a beth bynnag, dwi ddim yn hoffi'r bwyd yno.

Dwi'n hoffi byw yn y wagen a gweithio yn y farchnad. Roeddwn i'n arfer mynd i'r ysgol pan oeddwn yn iau, a dyna lle dysges i siarad Saesneg. Pan fydda i wedi tyfu, dwi'n gobeithio cael fy stondin fy hun yn y farchnad ac ennill digon o arian i rentu tŷ.

Rhai erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Erthygl 3: Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i ti.	Erthygl 17: Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn blaen, o unrhyw le yn y byd.	Erthygl 28: Mae gen ti hawl i addysg.
Erthygl 6: Mae gen ti hawl i fyw.	Erthygl 19: Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd.	Erthygl 30: Mae gen ti hawl i fwynhau dy ddiwylliant dy hun, dilyn dy grefydd dy hun a defnyddio dy iaith dy hun.
Erthygl 14: Mae gen ti hawl i feddwl beth fynni di a dilyn pa grefydd bynnag rwyt ti eisiau.	Erthygl 24: Mae gen ti hawl i iechyd da.	Erthygl 31: Mae gen ti hawl i chwarae.
Erthygl 15: Mae gen ti hawl i wneud ffrindiau.	Erthygl 27: Mae gen ti hawl i fwyd, dillad, a lle i fyw.	Erthygl 37: Ddylet ti ddim cael dy roi yn y carchar.

Tabl trefnu

Ydyn, mae'r hawliau hyn gan Reema/Charles	Nac ydyn, dydy'r hawliau hyn ddim gan Reema/Charles	Ddim yn siŵr

Cerdyn bingo cysyllteiriau

Allwch chi ddefnyddio'r cysyllteiriau hyn pan fyddwch chi'n chwarae rôl gyda'ch partner? Ceisiwch ychwanegu rhai eraill hefyd.

Cysyllteiriau ar gyfer …		
…rhoi rhesymau	**…ychwanegu neu drefnu syniadau**	**…cyflwyno safbwynt gwahanol**
felly	hefyd	er hynny
oherwydd	ymhellach	ar y llaw arall
	yn ychwanegol	neu